

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mehefin 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Atebion i'ch Cwestiynau

- 1. Sawl enghraifft o System Weithredu Microsoft Windows 7 sydd ar waith ar draws eich rhwydwaith cyfan ar hyn o bryd?**

8.

Faint o ddyfeisiau fel ciosgau, gliniaduron ac ati sy'n dal i redeg Windows 7?

1 x TMV

2 x PC mewn Gorsafoedd yn Lloegr yn cael eu newid ar hyn o bryd

5 x PC yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddi ac asesu, a disgwylir y byddant yn cael eu hamnewid eleni. Mae gan y rhain

galedwedd asesu penodol sydd wedi cyfyngu ar y gallu i'w hamnewid.

- 2. Sawl enghraifft o System Weithredu Microsoft Windows XP sydd ar waith ar draws eich rhwydwaith cyfan ar hyn o bryd?**

25

Faint o ddyfeisiau fel ciosgau, gliniaduron ac ati sy'n dal i redeg Windows XP?

Mae 25 x dyfais sy'n rhedeg XP wedi ei ymgorffori, heb rwydwaith, yn cael eu defnyddio ar un safle. Network Rail sy'n berchen ar y rhain ac maent i fod i gael eu newid yn ystod y 18 mis nesaf.

- 3. Pwy yw'r swyddog sy'n gyfrifol am gynnal a chyflwyno cymwysiadau gwaddol i'ch holl ddefnyddwyr?**

Ein Hadran TG a Gwasanaethau Digidol sy'n gyfrifol am y maes gwaith hwn. Ni allwn ddarparu manylion y swyddog sy'n gyfrifol gan fod y wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu dan Adran 40(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Gwybodaeth Bersonol).

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".